Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 10FED MAWRTH, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni ***

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 2 Mawrth 2022)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

**AELODAETH (3)**

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes (Cadeirydd)

Gareth Tudor Morris Jones

Edgar Wyn Owen

Elfed Williams (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. CAIS AM DRWYDDED SIOP RHYW** 21 - 49

I ystyried cais Eva Amour, 6th St Anne Square, Stryd Fawr, Abermaw, LL42 1DL

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4. Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

# Cyngor Gwynedd

# Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982

# Datganiad o Bolisi Trwyddedu Sefydliadau Rhyw

**CYNNWYS**

DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU SEFYDLIADAU RHYW

1. Cyflwyniad
2. Y Gyfraith
3. Y Broses Ymgeisio.
4. Ystyried Cais.
    - Ystyried Sylwadau
    - Seiliau dros Wrthod
    - Ffactorau i'w Hystyried
    - Pa mor Addas yw'r Ymgeisydd
    - Ymddygiad a Rheoli
5. Penderfynu ar Gais
6. Gorfodi ac Archwilio Eiddo

ATODIAD A - Rheoliadau ac Amodau Safonol y Drwydded.

ATODIAD B - Amod yn ymwneud â Lleoliadau Adloniant Rhyw.

## DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU SEFYDLIADAU RHYW

### 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pob cais am drwydded ac yn penderfynu ar bob un cais ar ei rinweddau unigol. Fodd bynnag, er cysondeb, tryloywder a thegwch, dros y blynyddoedd mae'r Pwyllgor Trwyddedu wedi mabwysiadu nifer o bolisïau ac egwyddorion cyffredinol i'w dywys wrth ystyried ceisiadau.

1.2 Mae manylion y polisïau a'r egwyddorion hynny sy'n berthnasol i reoli Sefydliadau Rhyw wedi cael eu hamlinellu yn y ddogfen hon. Mae'r polisi yn berthnasol i geisiadau am ganiatáu, adnewyddu, amrywio a throsglwyddo trwyddedau sefydliadau rhyw ar gyfer eiddo sy'n gweithredu yn ardal Cyngor Gwynedd.

1.3 Cyflwynodd y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (y Ddeddf) gynllun trwyddedu i reoli sefydliadau rhyw, sef, siopau rhyw a sinemâu rhyw. Mae'r Ddeddf wedi cael ei haddasu gan y Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 i gynnwys eiddo sy'n darparu adloniant o'r math dawnsio glin.

1.4 Nid oes modd gorfodi'r cynllun os nad yw'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu'r Ddeddf. Mabwysiadodd y Cyngor Ddeddf 1982, fel y'i diwygiwyd, mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 7 Hydref 2021; ac fe ddaw'n weithredol ar y 6ed o Rhagfyr 2021.

1.5 Mae'r cynllun trwyddedu yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i wrthod trwydded trwy gyfeirio at, ymysg pethau eraill, euogfarnau ymgeiswyr. Mae hefyd yn rhoi'r grym i awdurdod lleol wrthod caniatáu neu adnewyddu trwydded trwy gyfeirio at nifer y sefydliadau rhyw y mae'r awdurdod lleol yn ystyried sy'n briodol i ardal leol yr eiddo, testun y cais a chymeriad yr ardal leol.

1.6 Mae'r datganiad hwn yn amlinellu polisi'r Cyngor fydd yn arwain yr awdurdod trwyddedu wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau, gan ystyried ysbryd a bwriad Deddf 1982 a chyfraith achos a benderfynwyd ers hynny. Ni fydd y Cyngor yn dilyn y polisi hwn yn hollol gaeth, yn hytrach, bydd yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol wrth benderfynu ar gais. Caiff pob achos ei benderfynu yn ôl ei rinweddau ei hun.

## 2 Y GYFRAITH.

Cyflwynodd Atodlen 3 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 system drwyddedu i reoli sefydliadau rhyw. Ni all unrhyw sefydliad rhyw weithredu heb dderbyn trwydded gan y Cyngor. Gall trwydded o'r fath gynnwys amodau fydd yn cyfyngu ar sut all yr eiddo hwnnw fasnachu. Diwygiwyd Deddf 1982 gan Adran 27 y Ddeddf Plismona a Throsedd a ychwanegodd Lleoliad Adloniant Rhyw fel eiddo sy'n rhaid cael trwydded.

**Diffiniadau**

Yn y ddogfen hon, bydd yr ymadroddion a ganlyn yn golygu'r hyn a nodir isod:-

"Deddf 1982" - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 fel y'i diwygiwyd gan Adran 27 Deddf Plismona a Throsedd 2009.

"Y Cyngor" - Cyngor Gwynedd

"Yr eiddo trwyddedig" - unrhyw eiddo, gerbyd, llong/cwch neu stondin sydd wedi'i drwyddedu dan Ddeddf 1982.

"Deilydd y drwydded" - person sy'n dal trwydded Sefydliad Rhyw.

"Oriau a ganiateir" - yr oriau y mae caniatâd i'r eiddo trwyddedig fod ar agor i'r cyhoedd dan Reoliadau 2 a 3.

"Trwydded Sefydliad Rhyw" - trwydded sydd wedi'i chaniatáu yn unol ag Atodlen 3 Deddf 1982.

Bydd gan yr ymadroddion a ganlyn, "Sefydliad Rhyw", "Siop Rhyw", "Sinema Rhyw", "Eitem Rhyw" a "Llong" yr un ystyr â roddir iddynt yn ôl eu trefn dan Atodlen 3 Deddf 1982. Wedi'u cynnwys isod:

"Sefydliad Rhyw" - "Sinema Rhyw" neu "Siop Rhyw"

Golyga "Sinema Rhyw" unrhyw eiddo, cerbyd, llong neu stondin a ddefnyddir i raddau sylweddol i arddangos ffilmiau, waeth sut maent wedi'u cynhyrchu,

(a) sy'n ymwneud yn bennaf a phortreadu, neu'n ymdrin â neu'n berthnasol i, neu a fwriedir i ysgogi neu annog -
 i) gweithgarwch rhywiol; neu
 ii) gweithredoedd grym neu atal sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhyw; neu

(b) sy'n ymwneud yn bennaf â phortreadu organau cenhedlu neu weithrediadau pi-pi ac ysgarthu, neu'n ymdrin neu'n ymwneud yn bennaf â hwy, ond nid yw'n cynnwys tai preswyl lle nad oes mynediad i'r cyhoedd.

"Siop Rhyw" - unrhyw eiddo, gerbyd, llong neu stondin a ddefnyddir i fusnes sy'n cynnwys graddau sylweddol o werthu, hurio, cyfnewid, benthyca, arddangos neu amlygu

-

(a) eitemau rhyw; neu

(b) bethau eraill y bwriedir eu defnyddio yn gysylltiedig â, neu er mwyn ysgogi neu annog -

i) gweithgarwch rhywiol; neu
ii) gweithredoedd o rym neu ataliaeth sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhyw.

"Eitemau Rhyw" - unrhyw beth sydd wedi'i wneud er mwyn ei ddefnyddio mewn cysylltiad â, neu er mwyn ysgogi neu annog -

i) gweithgarwch rhywiol; neu
ii) gweithredoedd o rym neu ataliaeth sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhyw; ac

(a) unrhyw beth y mae'r is-baragraff isod yn berthnasol iddo.

Mae'r is-baragraff hwn yn berthnasol i -

(a) unrhyw eitemau sy'n cynnwys neu'n ymgorffori deunydd i gael ei ddarllen, i edrych arno neu unrhyw beth y bwriedir ei ddefnyddio, un ai ar ben ei hun neu fel rhan o gyfres, i atgynhyrchu neu gynhyrchu unrhyw eitemau o'r fath; ac

(b) i unrhyw recordiad o luniau neu sŵn, sy'n -

i) ymwneud yn bennaf â phortreadu, neu sy'n ymdrin yn bennaf neu'n berthnasol i, neu a fwriedir i ysgogi neu annog, gweithgarwch rhyw neu weithredoedd grym neu ataliaeth sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhyw; neu
ii) sy'n ymwneud yn bennaf â phortreadu, neu'n ymdrin yn bennaf neu'n ymwneud ag organau cenhedlu neu weithrediadau pi-pi ac ysgarthu, ond nid yw'n cynnwys tai preswyl lle nad oes mynediad i'r cyhoedd.

"Lleoliad Adloniant Rhyw" - eiddo sy'n darparu adloniant i gynulleidfa, yn amlach nag unwaith y mis, perfformiadau byw neu ddangos noethni y bwriedir iddo beri cynnwrf rhywiol

## 3 Y BROSES YMGEISIO

3.1 Mae modd ymgeisio am drwydded newydd neu adnewyddu, amrywio neu drosglwyddo trwydded bresennol. Rhaid llenwi a chyflwyno'r ffurflen gais gydag unrhyw ddogfennaeth berthnasol sy'n cefnogi'r cais a'i dychwelyd i'r awdurdod trwyddedu gyda'r ffi briodol yn unol â ffioedd a thaliadau'r Cyngor.

3.2 Mae'r awdurdod wedi cytuno i amodau safonol (Atodiad A) trwydded y bydd gofyn i bob ymgeisydd gydymffurfio â hwy.

3.3 Bydd angen hysbysebu rhybudd o'r cais ar yr eiddo, neu wrth ei ymyl, ac mewn papur newydd sy'n cael ei ddosbarthu yn ardal yr eiddo. Rhaid i'r rhybudd nodi'n glir at ba eiddo y mae'n cyfeirio. Bydd y rhybudd ar yr eiddo, neu wrth ei ymyl, yn cael ei arddangos am 21 diwrnod gan ddechrau ar ddyddiad y cais a rhaid ei roi mewn lleoliad sy'n gyfleus i'r cyhoedd ei ddarllen. Bydd y rhybudd yn y papur newydd yn cael ei gyhoeddi ddim hwy na 7 diwrnod ar ôl dyddiad y cais. Bydd y rhybudd yn darparu manylion yr ymgeisydd a phwrpas y cais, yr oriau gweithredu arfaethedig a bydd yn cynghori unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau i wneud hynny gan gofio eu cyflwyno o fewn y cyfnod hwnnw.

3.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ymgynghori â Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, yr awdurdod cynllunio, yr awdurdod addysg, ac ‘r Bwrdd Iechyd lleol/Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chynghorwyr wardiau lleol. Efallai y bydd yr ymgeiswyr yn dymuno trafod y cais gyda chynrychiolwyr lleol neu grwpiau preswylwyr lleol cyn cyflwyno cais.

## 4 YSTYRIED CAIS

Bydd y Cyngor yn ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau unigol.

<u>Ystyried Sylwadau</u>

4.1 Rhaid i sylwadau ar gais am drwydded ddatgan pam eu bod yn gwrthod a rhaid eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r awdurdod, i gael eu derbyn ddim hwyrach na 28 diwrnod ar ôl dyddiad derbyn y cais.

4.2 Bydd ceisiadau am gymeradwyo, trosglwyddo neu amrywio trwydded, neu i adnewyddu trwydded sy'n derbyn sylwadau, yn cael eu cyfeirio at Is Bwyllgor Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol er mwyn i'r aelodau benderfynu ar y cais. Os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, bydd ceisiadau i adnewyddu trwydded yn cael eu cymeradwyo dan awdurdod dirprwyedig gan swyddogion.

4.3 Pan fo'r awdurdod yn derbyn sylwadau, bydd yn rhoi manylion am nifer y sylwadau a'u natur gyffredinol i'r ymgeisydd.

<u>Seiliau dros Wrthod</u>

4.4 Bydd cais am drwydded yn gyffredinol yn cael ei wrthod ar y seiliau a ganlyn, sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982:

a) mae'r ymgeisydd yn iau na 18 mlwydd oed
b) mae'r ymgeisydd wedi colli trwydded yn y flwyddyn ddiwethaf
c) nid yw'r ymgeisydd wedi byw yn y DU yn y chwe mis diwethaf
d) mae'r ymgeisydd yn gwmni, nad yw wedi'i ymgorffori yn y DU
e) mae cais gan yr ymgeisydd ar gyfer yr eiddo wedi cael ei wrthod yn y deuddeg mis diwethaf

4.5 Mae modd gwrthod trwydded hefyd os yw'r Cyngor yn ystyried:

a) fod yr ymgeisydd yn anaddas i ddal y drwydded am ei fod wedi derbyn collfarn am drwydded neu am unrhyw reswm arall
b) pe bai'r busnes yn cael ei reoli neu ei weithredu er budd person, ac eithrio'r ymgeisydd, fyddai ddim yn derbyn trwydded pe bai'n ymgeisio am un ei hun.
c) nifer y sefydliadau rhyw yn yr ardal berthnasol yn gyfartal neu'n uwch na'r nifer yr ystyrir yn briodol i'r cyffiniau gan y Pwyllgor.
d) byddai caniatáu'r drwydded yn amhriodol o ystyried: -
    (i) cymeriad yr ardal leol berthnasol; neu
    (ii) defnydd unrhyw eiddo yn y cyffiniau; neu
    (iii) gosodiad, cymeriad, cyflwr neu leoliad yr eiddo.

<u>Ffactorau i'w Hystyried.</u>

4.6 Wrth ystyried ceisiadau am gymeradwyo trwyddedau newydd neu amrywio amodau, bydd y Cyngor yn asesu'r tebygolrwydd y byddai cymeradwyo'r drwydded yn peri effeithiau andwyol, yn enwedig ar breswylwyr lleol. Bydd y Cyngor yn ystyried y materion cyffredinol a ganlyn: -

- y math o weithgaredd sydd yn yr arfaeth
- hyd y drwydded arfaethedig
- oriau gweithredu arfaethedig
- gosodiad a chyflwr yr eiddo
- defnydd eiddo yn y cyffiniau
- cymeriad yr ardal leol y mae'r eiddo wedi'i leoli ynddi.

4.7 Wrth ystyried ceisiadau am gymeradwyo trwyddedau newydd neu amrywio amodau, bydd y Cyngor yn ystyried effeithiau posib y gweithgaredd trwyddedig ar:-

- drosedd ac anhrefn
- effaith gronnus eiddo trwyddedig yn yr ardal, yn cynnwys oriau gweithredu
- cymeriad yr ardal leol y mae'r eiddo wedi'i leoli ynddi
- p'un a oes mesurau priodol wedi'u cytuno ac a yw'r ymgeisydd wedi'u rhoi ar waith i leddfu unrhyw effeithiau andwyol.

4.8 Ni fydd trwyddedau ond yn cael eu caniatáu mewn ardaloedd sy'n addas ar gyfer defnydd o'r fath yn ddibynnol ar amgylchiadau unigol. Mae'r Cyngor yn ystyriol o'i rym i benderfynu na ddylid lleoli sefydliad rhyw mewn lleoliad penodol ond bydd yn penderfynu ar leoliad fel mater o ffaith i gael ei benderfynu gan amgylchiadau penodol pob achos ac nid trwy lunio ffiniau ar fap.

4.9 Ar gyfer ceisiadau newydd, bydd y Cyngor yn defnyddio oriau gweithredu rhwng 09.00 a 18.00 ar unrhyw ddydd oni bai am ddydd Sul, Dydd Nadolig a Dydd Gwener y Groglith pan na ddylid agor yr eiddo. Wrth ystyried lleoliad ceisiadau newydd, bydd y Cyngor yn ystyried: -

- agosrwydd i ardaloedd preswyl;
- agosrwydd i addoldai ac ysgolion;
- agosrwydd i ardaloedd sydd â'r lefelau uchaf o droseddau wedi'u cofnodi; ac
- effaith gronnus gweithgareddau trwyddedig perthnasol yn y cyffiniau.

4.10 Pan gyflwynir cais i adnewyddu neu amrywio trwydded, bydd y Cyngor yn ystyried: -

- lefelau trosedd ac anrhefn wedi'u cofnodi yn y cyffiniau;
- tystiolaeth o effeithiau andwyol amlwg y gweithgaredd ar ddiogelwch a mwynderau preswylwyr lleol;
- p'un a oes mesurau priodol wedi'u cytuno ac a yw'r ymgeisydd wedi'u rhoi ar waith i leddfu unrhyw effeithiau andwyol.

Addasrwydd yr Ymgeisydd

4.11 Rhaid i ymgeisydd fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded. Wrth benderfynu addasrwydd ar gyfer trwydded newydd neu drosglwyddo trwydded, bydd y Cyngor, yn y rhan fwyaf o achosion yn ystyried:-

- gwybodaeth a phrofiad blaenorol o'r ymgeisydd;
- unrhyw dystiolaeth o sut y mae'r ymgeisydd wedi gweithredu unrhyw drwydded bresennol neu flaenorol, yn cynnwys unrhyw drwydded a ddelir mewn unrhyw fwrdeistref arall;
- ac unrhyw adroddiad am yr ymgeisydd a sut y caiff yr eiddo ei reoli a dderbynnir gan wrthwynebwyr statudol.

Ymddygiad a Rheolaeth

4.12 Mae'r Cyngor yn gofyn i bob trwyddedai sicrhau ei fod ef a'i weithwyr yn cydymffurfio â'r holl amodau trwydded perthnasol a rheoliadau iechyd a diogelwch.

4.13 O ran rheoli eiddo trwyddedig, mae'r Cyngor yn annog yn gryf y dylai deilydd y drwydded, pan fo hynny'n bosib ac yn briodol: -

- weithio gydag asiantaethau statudol megis yr Heddlu, a'r Cyngor i greu a chynnal amgylchedd diogel, o fewn eiddo trwyddedig ac yn yr amgylchoedd o'u hamgylch;
- yn arbennig y rhai hynny y mae eu heiddo wedi'u lleoli mewn ardaloedd gyda'r lefelau uchaf o drosedd wedi'u cofnodi, datblygu strategaethau atal trosedd mewn ymgynghoriad â'r Heddlu a'r Cyngor.
- datblygu strategaethau a gweithdrefnau i gynyddu mynediad i bobl anabl i'r eiddo;
- hyfforddi pob staff perthnasol mewn meysydd megis iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, a rhagofalon tân.

4.14 Yn gyffredinol, cyflwynir trwyddedau am flwyddyn ond gellir eu cyflwyno am gyfnod byrrach os yw hynny'n briodol.

## 5 PENDERFYNU AR GAIS

5.1 Oni bai fod y drwydded yn cael ei hadnewyddu heb wrthwynebiad; bydd cais yn cael ei benderfynu gan is-bwyllgor o aelodau Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol y cyngor. Bydd yr ymgeisydd yn derbyn copi o'r adroddiad Pwyllgor, yn cynnwys crynodeb o'r cais, sylwadau ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall, cyn y cyfarfod. Bydd yr ymgeisydd ac unrhyw wrthwynebwyr neu gefnogwyr sydd wedi gwneud sylwadau o fewn y cyfnod statudol, yn cael gwybod am ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad i ystyried y mater ac yn derbyn gwahoddiad i'w fynychu.

5.2 Bydd y Pwyllgor yn ystyried y cais mewn gwrandawiad. Wrth ystyried y cais bydd y drefn a ganlyn yn cael ei mabwysiadu:

- bydd yr ymgeisydd yn cael cyfle i wrando ar y gwrthwynebydd a nodi beth a ddywedir;
- dim ond gwrthwynebwyr, neu eu cynrychiolwyr, sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol fydd yn cael caniatâd i siarad gerbron y Pwyllgor;
- caiff y gwrthwynebwyr, os ydynt yn bresennol, siarad gerbron y Pwyllgor os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rhaid i gyflwyniad y gwrthwynebydd gadw at yr hyn sydd wedi cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig a sut mae'n berthnasol i'r seiliau statudol dros wrthod.
- wedyn fe gaiff yr ymgeisydd gyfle i siarad gerbron y pwyllgor ar y cais a darparu gwybodaeth i gefnogi'r cais.
- caiff y gwrthwynebydd fod yn bresennol i wrando ar achos yr ymgeisydd, ond ni chaiff' siarad.
- y Pwyllgor i ofyn i'r gwrthwynebydd, yr ymgeisydd a'r cyhoedd i adael yr ystafell wrth i'r aelodau ystyried eu penderfyniad.
- gwahodd y gwrthwynebydd, yr ymgeisydd a'r cyhoedd i ddychwelyd i wrando ar y Pwyllgor yn datgan eu penderfyniad.
- bydd yr awdurdod trwyddedu yn cadarnhau'r penderfyniad yn ysgrifenedig i'r holl bartïon o fewn 7 diwrnod yn dechrau o ddiwrnod y gwrandawiad.

5.3 Bydd pob trwydded a gyflwynir yn destun i reoliadau ac amodau safonol y drwydded a ddangosir yn Atodiad A.

## 6 GORFODI AC ARCHWILIO EIDDO

6.1 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n gweithio'n agos ag asiantaethau eraill yn ôl y gofyn i roi sylw i faterion perthnasol. Pan fydd camau gorfodi'n cael eu gweithredu, bydd hynny yn unol â'r egwyddorion a amlinellwyd ym Mholisi Gorfodi Trwyddedu'r awdurdod. Bydd systemau archwilio'n seiliedig ar asesiad risg o'r eiddo unigol.

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

**ATODIAD A - Rheoliadau ac Amodau Safonol y Drwydded.**

**CYNGOR GWYNEDD**
**RHEOLIADAU AR GYFER SEFYDLIADAU RHYW**

Mae Cyngor Gwynedd, wrth arfer y grymoedd a roddir arno gan baragraff 13 Atodlen 3, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 a phob grym arall sy'n ei alluogi i'r perwyl hwnnw i wneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Diffiniadau**

1.(a) Yn y Rheoliadau hyn bydd gan yr ymadroddion a ganlyn, hynny yw "Sefydliad Rhyw", "Siop Rhyw", "Sinema Rhyw", "Lleoliad Adloniant Rhyw", "Nwyddau Rhyw", a "Llong " yr ystyron a roddir iddynt yn ôl eu trefn dan Atodlen 3 y Ddeddf.

(b) Dan y Rheoliadau hyn bydd yr ymadroddion a ganlyn yn golygu'r hyn a briodolir iddynt, sef:
-

"y Ddeddf" - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.
"y Cyngor" - Cyngor Gwynedd.
"yr eiddo trwyddedig" - unrhyw eiddo, gerbyd, llestr neu stondin sydd wedi'i drwyddedu dan y Ddeddf
"Deilydd y drwydded" - unrhyw berson sy'n dal trwydded sefydliad rhyw.
"Trwydded sefydliad rhyw" - trwydded sydd wedi'i chaniatáu yn unol ag Atodlen 3 y Ddeddf.
"Cymeradwyaeth y Cyngor" - cymeradwyaeth y Cyngor yn ysgrifenedig dan law Pennaeth Adran Amgylchedd neu ei gynrychiolydd enwebedig.
"Caniatâd y Cyngor" - caniatâd ysgrifenedig y Cyngor.
"Cymeradwywyd" - gan y Cyngor yn ysgrifenedig.

**Cyffredinol**

2. Pe bai gwrthdaro rhwng y Rheoliadau hyn ac unrhyw amodau arbennig sydd wedi'u cynnwys mewn trwydded sy'n ymwneud â Sefydliad Rhyw'r amodau arbennig fydd yn trechu.

3. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i addasu, dileu neu ychwanegu amodau ar unrhyw amser os tybir fod hynny'n briodol.

4. Ni ystyrir bod caniatáu trwydded ar gyfer Sefydliad Rhyw yn cyfleu unrhyw gymeradwyaeth neu gydsyniad a allai fod yn ofynnol dan unrhyw ddeddfiad, orchymyn neu reoliad ac eithrio'r Atodlen 3 Deddf

Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Wrth ddefnyddio'r Drwydded, bydd deilydd y Drwydded yn ystyried unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ardaro'r gweithgareddau arfaethedig.

5. Bydd deilydd Trwydded Sefydliad Rhyw yn cadw at reoliadau ac amodau o'r fath wrth i'r Cyngor eu cymeradwyo o dro i dro.

**Amseroedd Gweithredu**

6. Ac eithrio pan fo caniatâd ymlaen llaw gan y Cyngor, ni fydd Sefydliad Rhyw ar agor i'r cyhoedd cyn 09.00 a ni fydd ar agor ar ôl 18.00.

7. Ac eithrio caniatâd ymlaen llaw gan y Cyngor, ni fydd Sefydliad Rhyw ar agor ar ddydd Sul, dydd Gwener y Groglith a Dydd Nadolig.

**Amodau Safonol**

8. Ni chaniateir defnyddio'r eiddo Trwyddedig ar gyfer unrhyw ddiben oni bai am fusnes Sefydliad Rhyw.

9. Pan fo’r Trwyddedai'n gorff corfforaethol neu’n gorff anghorfforedig, bydd unrhyw newid yn y Cyfarwyddwr / Ysgrifennydd y Cwmni neu unrhyw berson arall sy’n gyfrifol am reoli’r corff, i’w hysbysu i'r Cyngor o fewn 14 diwrnod o unrhyw newid ac mae unrhyw fanylion ysgrifenedig y gallai’r Cyngor fod eu hangen mewn perthynas ag unrhyw Gyfarwyddwr, Ysgrifennydd neu Reolwr newydd i’w cyflwyno i’r Cyngor o fewn 14 diwrnod i dderbyn cais ysgrifenedig gan y Cyngor.

10. Bydd y Trwyddedai, neu unrhyw berson a enwir gan y Trwyddedai yn ysgrifenedig at ddiben rheoli’r Sefydliad Rhyw yn ei absenoldeb, ac mae’r manylion (yn cynnwys ffotograffau) wedi cael eu cyflenwi a’u cymeradwyo’n ysgrifenedig gan y Cyngor, yn gyfrifol am redeg yr Eiddo yn ystod yr holl amser y mae ar agor i’r cyhoedd.

11. Bydd enw’r person sy’n gyfrifol am reoli’r Sefydliad Rhyw yn cael ei arddangos yn amlwg yn y Sefydliad Rhyw.

12. Ni chaiff unrhyw berson sydd wedi derbyn collfarn am:-

- drosedd yn gysylltiedig â Sefydliad Rhyw trwyddedig neu heb drwydded
- trosedd rhyw
- trosedd yn ymwneud â gwerthu fideos sydd wedi'u cyfyngu i oedolion dros 18 oed fod yn gyflogedig yn yr eiddo na bod yn rhan o gyflenwi adloniant neu nwyddau yn yr eiddo.

13. Bydd y Trwyddedai neu'r person cyfrifol yn cadw cofrestr ddyddiol i'w chadw ar yr eiddo y bydd ef / hi yn ei defnyddio i gofnodi enw a chyfeiriad unrhyw berson sy'n gyfrifol am reoli'r Sefydliad Rhyw yn ei absenoldeb ac enwau a chyfeiriadau'r sawl sy'n gyflogedig yn y Sefydliad Rhyw. Dylid llenwi'r gofrestr pob diwrnod o fewn hanner awr i agor y Sefydliad Rhyw a dylai fod ar gael i gael ei harchwilio gan yr Heddlu a chan swyddogion awdurdodedig y Cyngor.

**Eiddo**

14. Bydd copïau o'r drwydded a'r amodau sydd ynghlwm â'r drwydded yn cael eu harddangos yn amlwg er mwyn i bob person sy'n mynd i mewn i'r eiddo weld copi o'r drwydded a'r amodau.

15. Bydd y Trwyddedai'n cadw rheolaeth dros holl rannau'r eiddo a ni fydd yn gosod, trwyddedu nad yn trosglwyddo perchnogaeth o unrhyw ran o'r eiddo.

16. Bydd unrhyw ffi am fynediad i'r eiddo yn cael ei harddangos yn glir ac yn ddarllenadwy y tu allan i'r eiddo er mwyn i bawb ei ddarllen cyn mynd i mewn i'r eiddo.

17. Ni chaniateir gosod arddangosfa, hysbyseb, gair, llythyren, model, arwydd, hysbyslen, bwrdd, hysbysiad, dyfais, cynrychiolaeth, darlun, ysgrifen neu ddeunydd tebyg y tu allan i'r eiddo heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig gan Gyngor Gwynedd, oni bai am yr arwyddion neu'r hysbysiadau hynny sy'n ofynnol dan amodau'r drwydded.

18. Bydd mynedfa'r eiddo yn cael ei dylunio a'i hadeiladu mewn modd fydd yn atal pobl o du allan i'r eiddo rhag gweld y tu mewn iddo.

19. Rhaid dylunio neu osod ffenestr i atal pobl sydd y tu allan i'r eiddo rhag gweld ei du mewn.

20. Ni fydd unrhyw ffenestr yn cynnwys unrhyw arwydd, deunydd hysbysebu, nwyddau neu arddangosfa sy'n debygol o achosi sarhad i unrhyw bobl sy'n mynd heibio'r ffenestr.

21. Rhaid i'r goleuadau ym mhob rhan o'r eiddo fod yn weithredol yn barhaus yn ystod yr holl amser mae'r eiddo ar agor fel sefydliad rhyw.

22. Bydd yr eiddo'n cael ei gadw i safon a chyflwr da.

23. Bydd pob rhan o'r Eiddo'n cael ei chadw mewn cyflwr glân a hylan hyd foddhad y Cyngor.

24. Bydd drysau ac agoriadau sy'n arwain i rannau o'r eiddo nad ydynt ar agor i'r cyhoedd yn cael eu marcio'n glir â "staff yn unig" neu ag arwydd arall sy'n atal y cyhoedd rhag defnyddio'r fath ddrysau neu agoriadau.

25. Bydd dyfais yn cael ei gosod ar ddrysau allanol y Sefydliad Rhyw er mwyn eu cau'n awtomatig a bydd dyfeisiau o'r fath yn cael eu cynnal a chadw er mwyn gweithio'n dda.

26. Bydd y Trwyddedai'n darparu modd o gael mynediad i'r Sefydliad Rhyw ac oddi mewn iddo ar gyfer anghenion aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â'r sefydliad ac sy'n anabl.

27. Rhaid i bob arddangosfa a gweithgaredd tebyg fod yn agored ac ar gael i gwsmeriaid heb godi tâl arnynt yn ychwanegol i ffi mynediad y sefydliad a ni fydd ciwbicyls neu ystafelloedd unigol wedi'u dylunio i alluogi i bobl unigol neu grwpiau o bobl gael arddangosfeydd neu weithgaredd tebyg, heb gael awdurdod/caniatâd gan y Cyngor.

28. Rhaid gosod arwyddion rhybudd clir yn unol â Deddf (Rheoli) Arddangosfeydd Anweddus 1981 ym mynedfa'r eiddo.

29. Ni newidir defnydd unrhyw ran o'r Eiddo o'r hyn a gymeradwywyd gan y Cyngor heb dderbyn caniatâd y Cyngor.

30. Ni chaiff y defnydd newid o Sinema Rhyw i Siop Rhyw neu o Siop Rhyw i Sinema Rhyw heb dderbyn caniatâd y Cyngor.

**Diogelwch**

31. Bydd Deilydd y Drwydded yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch y cyhoedd a'i weithwyr.

32. Bydd Deilydd y Drwydded yn cydymffurfio ag unrhyw fesurau atal tân a diogelwch sy'n ofynnol gan Wasanaeth Tân Gogledd Cymru a bydd yn cadw pob cyfarpar ymladd tân a diffodd tân a nodir ac yn sicrhau eu bod ar gael i'w defnyddio.

**Ymddygiad a Rheolaeth**

33. Bydd y Trwyddedai'n cadw trefn dda ar yr eiddo bob amser.

34. Ni fydd unrhyw berson iau na 18 mlwydd oed yn cael mynediad i'r eiddo.

35. Ni fydd tocynnau'n cael eu gwerthu nac unrhyw arian mynediad yn cael ei dderbyn mewn lleoliad y mae gan aelodau o'r cyhoedd, heblaw am gwsmeriaid y Sefydliad Rhyw, fynediad iddo.

36. Bydd y trwyddedai'n sicrhau nad yw'r eiddo yn cael ei ddefnyddio gan buteiniaid (gwryw neu fenyw) ar gyfer llithio neu unrhyw ddiben anfoesol.

37. Ni fydd y trwyddedai nac unrhyw berson arall yn ceisio masnach ar gyfer y sefydliad rhyw drwy lithiad personol y tu allan neu yng nghyffiniau'r sefydliad.

38. Ni chaiff unrhyw daflen, cerdyn, papur, taflen hysbysebu na deunydd tebyg yn hyrwyddo'r sefydliad neu unrhyw nwyddau neu wasanaeth a gynigir gan y sefydliad eu dosbarthu yng nghyffiniau'r sefydliad, oni bai y rhoddir awdurdodaeth/caniatâd ysgrifenedig gan Gyngor Gwynedd yn gyntaf.

39. Ni chaiff unrhyw Eitemau Rhyw nac unrhyw bethau eraill a fwriedir i'w defnyddio mewn cysylltiad â, neu er dibenion ysgogi neu annog gweithgaredd rhyw neu weithredoedd o rym neu ataliaeth, sy'n gysylltiedig â gweithgaredd rhywiol, eu dangos, eu gwerthu, eu llogi, eu cyfnewid, eu benthyg neu eu harddangos mewn Sinema Rhyw.

40. Bydd y trwyddedai'n darparu staff i sicrhau trefn dda a llwybr rhydd i gwsmeriaid ar lwybrau mynediad neu allanfa ac mewn meysydd parcio

sydd ym mherchnogaeth y trwyddedai.

41. Bydd y trwyddedai yn atal gwerthu, dangos er mwyn gwerthu neu gynnig i'w gwerthu unrhyw eitemau, nwyddau neu wasanaethau ar lwybrau mynediad neu allanfa ac mewn meysydd parcio sydd ym mherchnogaeth y trwyddedai.

42. Ni fydd unrhyw ddawnsio nac adloniant arall tebyg yn cael eu darparu na'u caniatáu oni bai yr awdurdodir hynny gan y Cyngor.

**Nwyddau sydd ar gael mewn Sefydliadau Rhyw**

43. Dim ond nwyddau sydd ar gael yn gyfreithiol ym Mhrydain o fannau adwerthu, cwmnïau archebu drwy'r post neu gynllunwyr partïon a gaiff eu gwerthu, eu llogi, eu benthyg neu eu cyflenwi, eu dangos, eu hysbysebu neu eu harddangos yn y sefydliad.

44. Ni chaiff unrhyw ffilm na fideo eu dangos, eu gwerthu, eu llogi, eu benthyg na'u cyflenwi oni bais eu bod (a) wedi'u pasio gan y British Board of Film Censors a bod ganddynt dystysgrif i'r perwyl hwnnw a (b) eu bod wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Recordiadau Fideo 1984 a'u bod yn atgynhyrchiad sydd wedi'u awdurdodi gan berchennog yr hawlfraint.

45. Bydd yr holl eitemau rhyw a'r pethau eraill a ddangosir i'w gwerthu, eu llogi, eu cyfnewid neu eu benthyg wedi'u marcio'n glir i ddangos y pris a godir.

46. Bydd y trwyddedai yn dangos ac yn darparu'n rhwydd lenyddiaeth ac enwau cyswllt a rhifau ffôn sefydliadau a chymdeithasau sy'n rhoi cyngor a chwnsela ar faterion yn ymwneud â phroblemau rhywiol, cynllunio teuluol ac afiechydon a drosglwyddir yn rhywiol, a hynny'n rhad ac am ddim.

47. Bydd yr holl ddeunydd argraffedig a gynigir i'w gwerthu, eu llogi, eu cyfnewid neu eu benthyg ar gael i'w harchwilio cyn eu prynu, eu llogi, eu cyfnewid neu eu benthyg a bydd hysbysiad i'r perwyl hwn yn cael ei arddangos yn amlwg o fewn y Sefydliad Rhyw

**ATODIAD B - Amod yn ymwneud â Lleoliadau Adloniant Rhyw.**

**AMODAU TRWYDDED YN YMWNEUD Â LLEOLIAD ADLONIANT RHYW SY'N DARPARU ADLONIANT SY'N YMWNEUD Â DARPARU DAWNSIO GLIN, DAWNSIO AR BEN BWRDD AC UNRHYW ADLONIANT ARALL SY'N YMWNEUD Â SIOE STRIPIO A/NEU NOETHNI.**

1. Dim ond ar lwyfan ac nid yn unman arall ar yr eiddo y caniateir noethni llwyr (dinoethi genitalia).

2. Ni fydd unrhyw weithred rhywiol yn digwydd.

3. Bydd yr ardal a gynigir ar gyfer y sioe stripio (sy'n golygu noethni llwyr):-

   (a) mewn lleoliad lle na ellir gweld y perfformiad o'r stryd.
   (b) mewn ardal ddynodedig o'r eiddo sydd wedi'i wahanu o'r gynulleidfa.
   (c) mewn lleoliad lle bydd gan y perfformwyr fynediad uniongyrchol i'r ystafell wisgo heb basio drwy neu'n agos i'r gynulleidfa.

4. Bydd yr ardal a gynigir ar gyfer dawnsio glin, dawnsio ar ben bwrdd (sy'n golygu noethni rhannol) mewn lleoliad lle na ellir gweld y perfformiad o'r stryd.

5. Ni fydd unrhyw gyswllt corfforol rhwng y bobl sy'n ymddangos ar y llwyfan a'r gynulleidfa. Dim ond y perfformwyr/diddanwyr fydd yn rhoi'r adloniant ac ni chaniateir i'r gynulleidfa gymryd rhan.

6. Dylai'r bobl sy'n ymddangos ar y llwyfan gael mynediad uniongyrchol i'r ystafell wisgo heb basio drwy neu'n agos i'r gynulleidfa.

7. Rhaid i'r dawnswyr glin/dawnswyr ar ben bwrdd wisgo'n syth ar ddiwedd bob perfformiad.

8. Ni fydd y trwyddedai, y perfformiwr ac unrhyw berson arall sy'n ymwneud â threfnu neu reoli'r adloniant yn annog, nac yn caniatáu annog y gynulleidfa i daflu arian at y perfformwyr nac yn rhoi cildwrn fel arall i'r perfformwyr (ac eithrio fel y caniateir yn amod 10 isod)

9. Dim ond y rhannau hynny o'r eiddo a ganiateir gan y Cyngor y gellir darparu adloniant a wneir gan ddawnswyr bronnoeth i gwsmeriaid sy'n eistedd wrth y byrddau. Ni chaniateir i'r gynulleidfa gymryd rhan.

10. Ni fydd unrhyw gyswllt corfforol rhwng cwsmeriaid a'r dawnswyr ac eithrio er mwyn rhoi arian neu dalebau yn nwylo'r dawnsiwr ar ddechrau neu ar ddiwedd y perfformiad. Tra bod y dawnswyr yn perfformio, bydd isafswm o un metr o bellter rhwng y dawnsiwr a'r cwsmeriaid sy'n eistedd. Caiff hysbysiadau i'r perwyl hwn eu dangos yn glir ar bob bwrdd a ger y fynedfa i'r eiddo.

11. Pe byddai cwsmer yn ceisio cyffwrdd dawnsiwr, rhaid i'r dawnsiwr dynnu'n ôl ac adrodd am y mater i'w r(h)eolwr/goruchwyliwr.

12. Ni fydd unrhyw gyswllt corfforol rhwng y dawnswyr wrth berfformio.

13. Bydd y dawnswyr bronnoeth yn gwisgo G-string neu ddarn o ddilledyn tebyg bob amser a fydd yn gorchuddio'r rhan priodol o'r corff.

14. Bydd y Trwyddedai yn ymdrin ag unrhyw adroddiad o gyswllt, camdriniaeth neu bryfocio

gan gwsmer neu ddawnsiwr ar unwaith.

15. Ni chaiff unrhyw rif ffôn, cyfeiriad na gwybodaeth a fyddai'n arwain ar unrhyw gyfarfod pellach ei basio o gwsmer i ddawnsiwr neu fel arall.

16. Ni chaiff unrhyw ddawnsiwr berfformio os yw'n feddw.

17. Ni chaiff unrhyw aelod o'r cyhoedd ei adael i mewn ac ni chaniateir iddynt aros yn yr ardal ddawnsio os ymddengys eu bod yn feddw.

18. Bydd holl aelodau'r cyhoedd yn parhau ar eu heistedd yn yr ardal ddawnsio oni bai am pan fyddant yn cyrraedd, yn gadael, yn mynd i'r tŷ bach neu i'r bar.

19. Ni chaniateir i aelodau'r cyhoedd ymgynnull yn ardal y bar.

20. Rhaid arddangos arwyddion yn y fynedfa i'r ardal ddawnsio sy'n nodi:-

"Gofynnir i unrhyw gwsmer sy'n ceisio gwneud cyswllt corfforol â dawnsiwr adael"

Rhaid i'r arwyddion fod yn ddigon mawr, yn ddarllenadwy ac wedi'u lleoli fel y gall yr holl gwsmeriaid sy'n mynd i'r ardal ddawnsio.

21. Ni chaiff unrhyw ddawnsiwr berfformio unrhyw weithred sy'n rhywiol eglur neu'n anllad.

22. Tra bod y dawnsio'n digwydd caiff dim llai na ... (nodwch y ffigwr y cytunwyd arno)... o Oruchwylwyr Drws sydd wedi'u cofrestru dan Gynllun Cofrestru a Hyfforddi Goruchwylwyr Eiddo Trwyddedig y Cyngor eu cyflogi yn y rhan o'r eiddo a ddefnyddir ar gyfer dawnsio oni bai y cymeradwyir trefniadau amgen gan y Cyngor.

23. (a) Gosodir camerâu cylch cyfyng i gyfro'r holl ardaloedd lle bydd y dawnsio'n digwydd. Bydd yr holl gamerâu yn recordio'n barhaus tra bod yr eiddo ar agor i'r cyhoedd a chedwir y recordiadau am o leiaf 28 diwrnod, gyda'r amser a'r dyddiad wedi'u stampio arnynt.

(b) Bydd y recordiadau ar gael ar unwaith i Swyddog Awdurdodedig o'r Cyngor neu Swyddog Heddlu ynghyd â'r cyfleusterau i'w gwylio.

(c) Darperir recordiadau ar gyfer y ddau ddiwrnod blaenorol ar unwaith ar gais. Darperir recordiadau y tu allan i'r cyfnod hwn gyda 24 awr o rybudd.